Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

5ed o Ragfyr

**Diwrnod Siwmperi Nadolig 2023**
**Dydd Gwener, 8fed o Ragfyr**

Annwyl Riant/Gwarcheidwaid,

Wrth i ni agosáu at wyliau'r Nadolig, hoffwn dynnu eich sylw at ein cynlluniau i gefnogi ein cymuned leol yn ystod cyfnod yma'r flwyddyn. Yn gyntaf, diolch yn fawr i bawb am eu cyfraniadau i'r diwrnod Plant Mewn Angen, lle codwyd dros £900 i'r achos arbennig yma.

Ddydd Gwener yma (8fed o Ragfyr), byddwn yn dathlu Diwrnod Siwmperi Nadolig drwy ganiatáu ein disgyblion i wisgo eu siwmperi Nadolig (neu wisg anffurfiol) i'r ysgol. Gofynnwn yn garedig i chi fel rhieni i wirio bod gwisg eich plentyn yn **addas** ar gyfer diwrnod ysgol.

Yn hytrach na chyfraniad ariannol, gofynnwn yn garedig am gyfraniad o nwyddau i'r banciau bwyd lleol (gweler rhestr o nwyddau isod). Os nad yw hwn yn bosibl, byddai cyfraniad o 50c (os oes brawd/chwaer yn yr ysgol) neu £1 (os yn unig blentyn yn yr ysgol) yn ddelfrydol er mwyn i ni fel ysgol gefnogi apêl banciau bwyd lleol. O ran nwyddau addas ar gyfer y banciau bwyd, mae'r canlynol yn ddelfrydol:

- Bisgedi
- Eitemau cartref/ymolchi
- Grawnfwyd
- Pasta
- Reis
- Tiniau
- Te a choffi

Yn ogystal â'r uchod, hoffwn gynnig cymorth i unrhyw deulu(oedd) sy'n wynebu heriau ychwanegol wrth baratoi at yr ŵyl. Os ydy hyn yn berthnasol i chi, plîs peidiwch ag oedi cyn cysylltu drwy'r rhif ffôn neu e-bost isod, neu drwy'r ffurflen hon: https://forms.office.com/e/0NDYKv5eNB Bydd llythyr arall yn eich cyrraedd erbyn diwedd y tymor, ond yn y cyfamser, cofiwch gysylltu gyda'r ysgol os ydych am drafod yr uchod, neu am ragor o wybodaeth.

Yn ddiffuant,

Mr Chris Shaw
Pennaeth Cynorthwyol

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies